Marchogaeth ceffylau ar y ffordd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â marchogaeth ceffylau ar y ffordd. Mae'r safon hon yn cynnwys marchogaeth yn ddiogel ar y ffordd yn unol â Rheolau'r Ffordd Fawr. Bydd hyn yn cynnwys marchogaeth ar y ffordd mewn ystod o amodau.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. gosod harneisiau ac offer addas ar gyfer marchogaeth ceffylau ar y ffordd
4. cwblhau'r paratoadau perthnasol cyn dechrau marchogaeth ar y ffordd
5. cynllunio'r daith a fwriedir ar y ffordd
6. mynd ar gefn ac oddi ar gefn ceffylau yn ddiogel
7. addasu cerddediad a chyflymder yn unol â'r cyfarwyddiadau
8. dilyn Rheolau'r Ffordd Fawr ar gyfer marchogaeth ar y ffordd bob amser
9. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. gofynion diogelwch ar y ffordd a pherthnasedd Rheolau'r Ffordd Fawr
3. cyfrifoldebau ac egwyddorion marchogaeth ceffyl mewn grwp ar y ffordd
4. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen a pherygl i chi eich hun ac i eraill
5. yr amodau a allai effeithio ar farchogaeth ceffyl ar y ffordd
6. y camau i'w cymryd os bydd damwain neu ddigwyddiad
7. y rhagofalon iechyd a diogelwch i'w cymryd wrth farchogaeth ceffyl ar y ffordd
8. y peryglon yr ydych yn debygol o ddod ar eu traws wrth farchogaeth ceffyl ar y ffordd
9. safle'r ceffyl ar y ffordd yn arbennig ar gyffyrdd
10. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Marchogaeth dau geffyl gwahanol ar y ffordd.

Addasu cerddediad a chyflymder yn unol â phedwar o'r amodau canlynol:

- arwyneb y ffordd
- y tywydd
- defnyddwyr eraill ar y ffordd
- marchogaeth mewn grŵp
- marchogion eraill
- amlygrwydd

Marchogaeth ceffylau ar y ffordd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq214 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; marchogaeth; ffordd; iechyd a lles anifeiliaid |